Dŵr Cymru
Welsh Water

June 2021

# Diogelu Data — Ein Dull O Weithredu

Mae Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW) wedi ymrwymo i sicrhau ein bod ni'n delio â Data Personol ein cwsmeriaid a'n gweithwyr mewn ffordd gyfrifol, gonest a moesegol ym mhopeth a wnawn, sy'n cynnwys parchu eu hawliau Diogelu Data. Cael pobl i ymddiried ynom i wneud y peth iawn yw un o'n gwerthoedd craidd.

Fel rheolwr data mewn perthynas â Data Personol ein cwsmeriaid a'n gweithwyr, y cwmni sy'n gyfrifol am sicrhau bod Data Personol ein cwsmeriaid a'n gweithwyr yn cael ei brosesu yn unol â'r cyfreithiau Diogelu Data (gan gynnwys Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (UK GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018). Mae hyn yn cynnwys amgylchiadau lle bo trydydd parti yn prosesu Data Personol ar ein rhan. Ein nod yw sicrhau bod unrhyw gontractau lle mae trydydd parti'n prosesu Data Personol ar ran y cwmni'n cynnwys darpariaethau Diogelu Data priodol er mwyn sicrhau ein bod wedi cymryd pob cam rhesymol i gydymffurfio â'r cyfreithiau Diogelu Data (gan gynnwys lle bo Data Personol yn cael ei drosglwyddo y tu hwnt i AEE). Tîm Diogelwch Gwybodaeth y Cwmni sy'n gyfrifol am ddilysu bod mesurau diogelu technegol digonol yn bodoli er mwyn amddiffyn Data Personol ein cwsmeriaid a'n gweithwyr.

Mae'r Bwrdd yn ardystio Polisi Diogelu Data'r cwmni. Ein nod yw gwella ein harferion mewn perthynas â Diogelu Data yn barhaus, wrth ddarparu'r gwasanaeth y mae ar ein cwsmeriaid ei angen gennym, a galluogi'r Cwmni i weithredu'n effeithlon, ac mae hynny'n golygu bod angen i ni barhau i adolygu ein prosesau a'u diwygio lle bo angen. Darperir hyfforddiant ac adolygiadau o'r canllawiau ar gyfer cydweithwyr o leiaf unwaith y flwyddyn, ac yn ôl yr angen wrth i faterion godi yn ystod y flwyddyn.

Mae Swyddog Diogelu Data'r cwmni (DPO) yn adrodd i'r Bwrdd yn flynyddol, gan glustnodi unrhyw risgiau o ran Diogelu Data a'r camau a gymerwyd i'w lliniaru. Yn ogystal, bydd ef/hi yn codi unrhyw faterion o bwys gyda'r Bwrdd, y Pwyllgor Archwilio a/neu'r Gweithgor fel y bo'n briodol, wrth iddynt godi.

Nod y Bwrdd wrth fabwysiadu'r datganiad Diogelu Data yma yw cadarnhau ei ymrwymiad i gydymffurfiaeth y cwmni â'r cyfreithiau Diogelu Data ac amddiffyn hawliau unigolion.

Cymeradwywyd gan Gyd-fyrddau Glas Cymru a Dŵr Cymru Cyfyngedig

Mehefin 2021